Urdd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Swyddog Cymunedol Morgannwg Ganol** |
| **Math o gontract:** | **Swydd barhaol, llawn amser (35 awr yr wythnos)** |
| **Graddfa:** | **Graddfa 4- £25,211 (Pwynt 1) - £28,223 (Pwynt 4)** |
| **Lleoliad:** | **O fewn y Rhanbarth** |

**Amdanom ni**

Urdd Gobaith Cymru yw mudiad ieuenctid cenedlaethol mwyaf Cymru sy'n darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymwneud â chwaraeon, y celfyddydau, gwirfoddoli, hyfforddiant, gwaith dyngarol, rhyngwladol a phreswyl, sy'n eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned a'r byd yn ehangach.

Ers ei sefydlu yn 1922, mae'r mudiad wedi meithrin cenedlaethau o bobl ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i eraill ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang y parchir yng Nghymru. Hyd yma mae dros 4 miliwn o bobl wedi bod yn aelodau o'r Urdd ac eleni mae'r mudiad yn edrych ymlaen at ddathlu ei ganmlwyddiant a chydag nifer o ddigwyddiadau mawr wedi'u cynllunio'n arbennig.

Yr Urdd yw cyflogwr trydydd sector cyfrwng Cymraeg mwyaf yng Nghymru, gyda dros 200 o staff wedi'u lleoli mewn 12 swyddfa ledled Cymru. Roedd ei drosiant blynyddol cyn Covid bron yn £12M, a daeth â gwerth economaidd o £32M i Gymru yn ystod 2019/20.

Anfonwch ffurflen gais ar e-bost at swyddi@urdd.org

Am fwy o wybodaeth plîs cysylltwch gyda Sian Rogers, Cyfarwyddwr Ieuenctid a Chymuned ar sianrogers@urdd.org

**Dyddiad Cau:** 20 Mehefin 2022

**Dyddiad Cyfweld** : 23/24 Mehefin 2022

Mae'r Urdd yn cefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith a gweithgareddau. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir a chymuned, ac yn benodol y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i ymgeiswyr anabl a phobl ddiwylliannol ac ethnig amrywiol.

| DISGRIFIAD SWYDD | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd: Trafodaeth ar y deitl** | Swyddog Cymunedol Morgannwg Ganol | **Lleoliad:** | O fewn y Rhanbarth |
| **Adran:** | Ieuenctid a Chymuned | **Graddfa:** | Gradd 4 |
| **Yn adrodd i:** | Rheolwr Cymunedol y De a thrwyddi hi i'r Cyfarwyddwr Ieuenctid a Chymuned. | | |

**Prif bwrpas y swydd:**

Bydd disgwyl i'r Swyddog ddenu grwpiau ac ysgolion newydd i fynychu Gwersylloedd yr Urdd a chystadlu yn Eisteddfodau Cylch/Rhanbarth yr Urdd.

Bydd y swyddog yn gyfrifol am weithredu ar dystiolaeth penodol sy'n nodi'r ysgolion a grwpiau nad yw yn ymweld â'r Gwersylloedd nac yn cystadlu mewn Eisteddfodau ar hyn o bryd.

Bydd y Swyddog yn adnabod cyfleoedd cymunedol ac yn trefnu darpariaeth addas sy'n ymateb i anghenion plant a phobl ifanc.

Bydd disgwyl i'r Swyddog ymestyn cynnig yr Urdd o ran amrywiaeth, cynnwys, grwpiau targed, creadigrwydd a chyfleoedd i bobl ifanc o bob gallu celfyddydol, hil a chefndir.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

**<u>Gwersylloedd</u>**

1. Trefnu ymweliadau hyrwyddo mewn ysgolion a chyd-drefnu cyrsiau preswyl i ysgolion a clystyrau
2. Hyrwyddo a mynychu cyrsiau haf yn y Gwersylloedd
3. Trefnu penwythnosau gwersylloedd rhanbarthol
4. Trefnu a mynychu rhaglen o gyfnodau gwersyll cenedlaethol ar y cyd a gweddill y tim
5. Mynychu cyrsiau clwstwr o ysgolion mewn gwersylloedd.

**<u>Eisteddfod</u>**

1. Cynllunio a threfnu Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth
2. Gweithredu cynllun i ddenu ysgolion a grwpiau newydd amrywiol i gystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth.
3. Mynychu cyfarfodydd i gefnogi'r Pwyllgorau Cylch / Rhanbarthau i drefnu Eisteddfodau lleol gan sicrhau llais pobl Ifanc (dan 25) ar y Pwyllgorau hyn.
4. Cefnogi'r bwrlwm o ddigwyddiadau cymunedol os gynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd o fewn y rhanbarth
5. Cynorthwyo yn ôl yr angen yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
6. Cydweithio ar Theatr Ieuenctid yr Urdd.

**<u>Cymunedol</u>**

7. Mapio darpariaeth y rhanbarth, gan gynnwys pobl Ifanc, i ddarganfod y bylchau lle gellid llunio gweithgareddau addas i ateb anghenion plant a phobl ifanc.
8. Adnabod a sefydlu partneriaethau, i hwyluso darpariaeth leol ac ehangu profiadau plant a phobl ifanc.

9. Cydlynu amserlen o weithgareddau i blant a phobl ifanc tu allan i oriau ysgol yn cynnwys clybiau, gweithdai, teithiau undydd neu breswyl.
10. Cefnogi cynlluniau strategol trawsadrannol ~~canmlwyddiant~~ a chenedlaethol sydd yn ehangu gorwelion celfyddydol plant a phobl ifanc.
11. Hyrwyddo'r Urdd ac aelodaeth o fewn ysgolion y Rhanbarth.
12. Cynnal sesiynau a gweithgareddau o fewn ysgolion y Rhanbarth.
13. Hyrwyddo, cefnogi a chydweithio ar brosiectau Rhyngwladol yn ôl y galw

14. Sefydlu rhwydwaith lleol o wirfoddolwyr o bob oed i gefnogi holl weithgarwch yr Urdd o fewn y Rhanbarth.
15. Annog pobl ifanc i wirfoddoli, trwy gynnig cyfleoedd, hyfforddiant, cefnogaeth a phrofiadau.

**Codi Arian**

16. Cyfrifoldeb dros gyrraedd y targed ariannol rhanbarthol a osodir gan y Cyfarwyddwr
17. Cyflwyno ceisiadau ariannol i gynnal gweithgareddau yn rhanbarthol.

**Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**

**Hanfodol**

- Rhaid meddu ar sgiliau cyfathrebu da yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Rhaid bod ag ymwybyddiaeth o ddelfrydau ac amcanion Urdd Gobaith Cymru a gweledigaeth parthed lledaenu'r iaith Gymraeg i blant a phobl ifanc Cymru.
- Person brwdfrydig, egnïol, a chreadigol i godi diddordeb yng ngweithgareddau'r Urdd yn y r rhanbarth
- Bod â thrwydded yrru llawn a defnydd o gar.
- Profiad o drefnu a chydlynu prosiectau
- Bod a phrofiad o ddefnyddio platfformau digidol i gynnig gweithgareddau i blant a phobl ifanc a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gweithgareddau

**Dymunol**

- Profiad a/neu gymhwyster mewn gwaith ieuenctid (cynigir cwrs penodol Agored Cymru Lefel 2 sydd yn arwain at gwblhau Tystysgrif Lefel 3 Ymarfer Gwaith Ieuenctid 3 onid yw'r ymgeisydd llwyddiannus eisoes yn meddu'r cymhwyster neu gymhwyster gwaith ieuenctid uwch).
- Dealltwriaeth o hawliau plant a phobl Ifanc.

**Gofynion deddfwriaethol yn ymwneud a'r swydd hon**

- Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus derbyn gwiriad DBS priodol.
- Yn unol â'r ddeddf bydd rhaid cofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg yng Nghymru os yw / neu pan fydd yr ymgeisydd yn dal cymhwyster Gwaith Ieuenctid cydnabyddedig Lefel 2 neu uwch.

***Nodiadau i ymgeiswyr:***

*I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y*

| |
|---|
| *rhestr fer. Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.* |
| **Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:** Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd. |
| **Hyblygrwydd:** Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr. |
| **Adolygiad:** Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mai 2022 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad. |